CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR:
Cofnodion Cyfarfod
10fed Hydref 2023 yn Y Ganolfan, Penmynydd

YN BRESENNOL: Cyng., Dewi Gwyn (Cadeirydd), Heulwen Owen, Nia Jones, Owain Evans, D.Idriswyn Roberts, Llinos Roberts, Janet Jones Cynghorwyr Sirol : Clerc: Gillian Morris	
1.	**YMDDIHEURIADAU** Heulwen Owen, D.Idriswyn Roberts. Dyfed Jones, Robin Williams, Sonia Williams (Cynghorwyr Sirol)
2.	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3.	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 09/09/2023. Fe'i derbyniwyd fel rhai cywir. LlR yn cynnig, NJ yn eilio.
4.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Maes Chwarae, Star - Prif waith wedi gorffen, paneli newydd rhyngweithiol wedi eu newid. Latch ar gyfer y giât wedi ei gosod. Gan fod neb yn yr ardal wedi dangos diddordeb ym mhrosiect Gardd Tyfu Bwyd Cadw Cymru'n Daclus, penderfynwyd peidio symud ymlaen gyda hyn.
4.2	Llwybrau Cyhoeddus - Clerc i ofyn i Norman Jones am bris i dorri a thwtio'r llwybrau.
4.3	Hysbysfyrddau - Clerc wedi cysylltu gyda Sign & Design ac yn disgwyl ymateb.
5.0	**Materion ariannol**
5.1	Cafwyd diweddariad gan y clerc ar y sefyllfa ariannol. Arian yn y banc, taliad cyflog. Trafodwyd y cyllid chwarterol am yr ail chwarter.
5.2	Taliadau - Cymeradwyo taliadau.
5.3	PAYE - Clerc i wirio taliadau PAYE blwyddyn 2022-2023.
6.0	**GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN**
6.1	RAAC
6.2	Gorchymyn Terfyn Cyflymder 20MYA
7.0	**Ceisiadau Cynllunio**
7.1	HHP/2023/143 - Tan Rhiw, Penmynydd, trafodwyd y pryderon ynglŷn â'r cais sef parcio, mynediad i'r annedd, sŵn ychwanegol. DG am ysgrifennu llythyr gwrthwynebiad i CSYM.
7.2	FPL/2023/248 - 7 Bryn Ffynnon, Star
8.0	**Gohebiaeth Ychwanegol**
8.1	Pont Menai - UK Highways A55-adroddiad ar gyfer y gwaith adnewyddu.
9.0	**Materion Eraill**
9.1	Elusendai (diweddariad)- Cafwyd diweddariad gan OE ynglŷn â'r diwrnod agored i ymgynghori gyda'r cyhoedd. Prynhawn llwyddiannus gyda chanran dda yn ymweld ar y diwrnod.

9.2	Y Ganolfan: Cyfrifoldebau Cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor Cymuned sydd yn prydlesu gan CSYM. Cyngor Cymuned yn gyfrifol am y polisïau canlynol sef y gofrestr asbestos a'r asesiad risg Legionella, Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan sydd yn gyfrifol am bopeth arall gan gynnwys asesiadau risg eraill, diffoddyddion tân, tystysgrif nwy a phrofion PAT. Rôl y Cyngor Cymuned ydi cefnogi'r Pwyllgor Rheoli a chyllido'r materion statudol. DG am gysylltu gyda chadeirydd Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan (DIR) i drafod ymhellach a chreu dogfen "Cyfrifoldebau".
9.3	Prosiectau sydd angen eu cyllido: adolygiad blynyddol. Trafodwyd y prosiectau sef Y Ganolfan a hysbysfyrddau.
10.0	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
10.1	Adnewyddu'r Yswiriant

Llofnod **Dyddiad**